# Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

**2009 mccc 4**

*Cyffredinol*

**19 Adroddiad blynyddol**

(1) Cyn gynted ag y gellir ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, rhaid i'r Comisiynydd osod gerbron y Cynulliad adroddiad blynyddol ar gyflawni swyddogaethau'r Comisiynydd drwy gydol y flwyddyn honno.

(2) Yn ddarostyngedig i is-adran (3) rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad cryno o wybodaeth sy'n ymwneud â materion a thrafodion ariannol y Comisiynydd wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny yn ystod y flwyddyn honno.

(3) Rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan y Cynulliad o ran ffurf yr adroddiad blynyddol ac o ran unrhyw wybodaeth benodol neu ddosbarth penodol o wybodaeth y mae'n rhaid iddo eu cynnwys.

(4) Yn ddarostyngedig i is-adran (5), rhaid i'r Comisiynydd gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad—

(a) i ddod gerbron y pwyllgor hwnnw,

(b) i roi i'r pwyllgor unrhyw wybodaeth y mae'n rhesymol i'r pwyllgor ofyn amdani mewn perthynas ag unrhyw fater a gynhwyswyd mewn adroddiad sydd wedi'i osod gerbron y Cynulliad o dan is-adran (1) neu yr oedd yn ofynnol ei gynnwys mewn adroddiad o'r fath.

(5) Nid oes angen i'r Comisiynydd gydymffurfio a gofyniad o dan is-adran (4) —

(a) os nad yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, a

(b) ac eithrio yn achos gofyniad o dan is-adran (4)(b) a fynegir i'r Comisiynydd ar lafar yn un o gyfarfodydd y pwyllgor, oni bai bod y gofyniad yn un ysgrifenedig.

## 20 Dehongli

(1) Yn y Mesur hwn —

mae "Aelod Cynulliad" ("*Assembly Member*") yn cynnwys —

(a) at ddibenion adran 1(3)(a) a (b) yn unig,y Cwnsler Cyffredinol hyd yn oed os nad yw'r swyddog hwnnw'n Aelod o'r Cynulliad, a

(b) ac eithrio at ddibenion adran 1(3)(a) a (b), cyn Aelod o'r Cynulliad,

ystyr "y Clerc" ("*the Clerk*") yw Clerc y Cynulliad,

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

ystyr "Cwnsler Cyffredinol" ("*Counsel General*") yw Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru,

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32),

ystyr "y Pwyllgor Safonau Ymddygiad" ("*the Committee on Standards of Conduct*") yw unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor i'r Cynulliad y dirprwywyd iddo, gan y Rheolau Sefydlog neu odanynt, swyddogaethau sy'n ymwneud â chwynion bod Aelodau Cynulliad wedi methu â chydymffurfio â gofynion darpariaeth berthnasol, ac

ystyr "Rheolau Sefydlog" ("*Standing Orders*") yw Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Mesur hwn at "y Cynulliad" yn gyfeiriad —

(a) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu

(b) heblaw yn adrannau 1 ,4, 6(3)(b), (c) a (d) a'r Atodlen, at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.

## 21 Enw byr a chychwyn

(1) Enw'r Mesur hwn yw Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009.

(2) Daw'r Mesur hwn i rym fel a ganlyn —

(a) daw'r adran hon ac adrannau 1, 3 (gan gynnwys yr Atodlen) a 20 i rym drannoeth y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, a

(b) daw gweddill darpariaethau'r Mesur hwn i rym drannoeth y diwrnod y cyhoeddir hysbysiad o dan is-adran (3).

(3) Rhaid i'r Clerc, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i benodiad cyntaf Comisiynydd o dan y Mesur hwn ddod i rym, beri cyhoeddi, mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yng Nghymru, hysbysiad —

(a) o'r ffaith bod y penodiad o dan sylw wedi dod i rym, a

(b) o'r ffaith y bydd holl ddarpariaethau'r Mesur hwn (heblaw'r rhai sydd eisoes mewn grym) oherwydd cyhoeddi'r hysbysiad yn dod i rym drannoeth y diwrnod y cyhoeddir yr hysbysiad.